Wales Renewable Energy Bulletin

BWEA Wales Renewable Energy Bulletin
Issue 01 - November 2006

Welcome to the first edition of "Wales Renewable Energy Bulletin", a new, regular information resource for those involved with Wales' thriving renewable energy industry. The bulletin will be focused primarily on onshore wind energy to reflect Welsh renewable energy policy set out in TAN8 but will also cover other renewable energy projects in Wales. The bulletin will be produced and distributed by BWEA's Wales Steering Committee. If you would like to receive future copies, please email info@bwea.com, alternatively, download this and future editions at www.bwea.com/wales.

Wind of change for Wales

Climate change, rising power prices and fears over security of supply have put the issue of energy high in everyone's mind. More and more people are becoming aware of the need to embrace renewable energy for a sustainable future. Wales is home to some of the best winds in Europe, and wind energy will play a major part in helping Wales meet its renewable energy goal.

The continuing support for wind energy in Wales has been re-confirmed by the results of a new opinion poll with 72% of people agreeing that wind farms are necessary so that we can produce renewable energy to help us meet current and future energy needs.

An event over the August Bank Holiday – Wind Weekend – allowed visitors to experience the power of the wind, when flagship wind farms opened their gates to members of the public, giving people the opportunity to see wind energy in action. Rheidol Wind Farm, near Aberystwyth in Ceredigion and Hafoty Ucha Wind Farm near Corwen in Conwy offered free entertainment for all the family, from wind turbine tours, interactive activities and energy efficiency advice, and long time renewables exponents, the Centre for Alternative Technology in Machynlleth in Powys, also opened over the weekend.

Wind Weekend visitors to Hafoty Ucha taking a turbine tour. More at www.embracewind.com

Progress towards TAN8 targets

The Welsh Assembly Government, through its renewable energy policy guidance (TAN8) has set clear targets for renewable energy generation in Wales. Each issue of the Wales Renewable Energy Bulletin will monitor progress towards the specific target of 800 MW of additional onshore wind energy capacity by 2010, using statistics from the UKWED database (www.bwea.com/ukwed/). In order to achieve the TAN8 onshore wind energy target, an average of 12.3 MW needs to be installed each month up to December 2010; by November 2006, progress was over 60% behind schedule.

New project: npower-renewables has officially opened Ffynnon Oer Wind Farm in the Neath Valley. This 32 MW wind farm, generating electricity equivalent to the demands of over 17,000 homes, was officially opened by Secretary of State for Wales, Peter Hain.

Onshore Wind Energy – progress towards the TAN8 target adopted in July 2005



Contact Llywelyn Rhys, BWEA Wales Officer
t 07875 434 049
e llywelyn@bwea.com

embrace the revolution
www.embracewind.com

Bwletin Ynni Adnewyddadwy Cymru

BWEA Bwletin Ynni Adnewyddadwy Cymru
Rhifyn 01 - Tachwedd 2006

Croeso i'r rhifyn cyntaf o "Bwletin Ynni Adnewyddadwy Cymru", sef adnawdd gwybodaeth rheolaidd, newydd ar gyfer y sawl sy'n gysylltiedig â diwydiant ynni adnewyddadwy ffyniannus Cymru. Fe fydd y bwletin yn canolbwyntio yn bennaf oll ar ynni gwynt ar y tir er mwyn adlewyrchu polisi ynni adnewyddadwy Cymru a amlinellir yn TAN8 ond fe fydd hefyd yn ymdrin â phrosiectau ynni adnewyddadwy eraill yng Nghymru. Fe fydd y bwletin yn cael ei gynhyrchu a'i ddosbarthu gan Bwyllgor Llywio Cymru y BWEA. Os hoffech dderbyn copïau yn y dyfodol, anfonwch e-bost, os gwelwch yn dda, at info@bwea.com, neu fel arall, llwythwch hwn a rhifynnau'r dyfodol i lawr oddi ar www.bwea.com/wales.

Newid yn y Gwynt i Gymru

Y mae newid yn yr hinsawdd, prisiau pŵer yn codi ac ofnau ynglŷn â diogeledd cyflenwadau wedi rhoi mater ynni yn flaenllaw ym meddwl pawb. Y mae mwy a mwy o bobl yn dod yn ymwybodol o'r angen i gofleidio ynni adnewyddadwy ar gyfer dyfodol cynaliadwy. Y mae Cymru yn gartref i beth o'r gwyntoedd gorau yn Ewrop, ac fe fydd gan ynni gwynt ran sylweddol iawn gyda chynorthwyo Cymru i gyrraedd ei nod ynni adnewyddadwy.

Y mae'r parhad mewn cefnogaeth i ynni gwynt yng Nghymru wedi'i ail-gadarnhau gan ganlyniadau pôl barn newydd, gyda 72% o bobl yn cytuno bod ffermydd gwynt yn angenrheidiol fel ein bod yn gallu cynhyrchu ynni adnewyddadwy i'n cynorthwyo ni i ddiwallu anghenion ynni cyfredol ac anghenion ynni'r dyfodol.

Fe wnaeth digwyddiad dros Ŵyl y Banc ym mis Awst – Penwythnos Gwynt – alluogi ymwelwyr i brofi nerth y gwynt, pan wnaeth y ffermydd gwynt amlycaf agor eu pyrth i aelodau'r cyhoedd, gan roi'r cyfle i bobl i weld ynni gwynt ar waith. Fe wnaeth Fferm Wynt Rheidol, ger Aberystwyth yng Ngheredigion, a Fferm Wynt Hafoty Ucha ger Corwen yn sir Ddinbych gynnig adloniant am ddim i'r teulu i gyd, yn amrywio o deithiau tyrbinau gwynt, gweithgareddau rhyngweithiol a chyngor ynglŷn ag effeithlonrwydd ynni, ac fe wnaeth yr esbonyddion ynni adnewyddadwy sydd wedi bod wrthi ers amser maith, y Ganolfan Technoleg Amgen ym Machynlleth ym Mhowys, hefyd agored dros y penwythnos.

Cynnydd tuag at dargedau TAN8

Y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru, drwy'u canllawiau ar bolisi ynni adnewyddadwy (TAN8), wedi pennu targedau pendant ar gyfer cynhyrchu ynni adnewyddadwy yng Nghymru. Fe fydd pob rhifyn o Bwletin Ynni Adnewyddadwy Cymru yn cadw golwg ar gynnydd tuag at y targed penodol o 800 MW o gapasiti ynni gwynt ychwanegol ar y tir erbyn 2010, gan ddefnyddio ystadegau oddi wrth gronfa ddata UKWED (www.bwea.com/ukwed/). Er mwyn cyrraedd y targed ynni gwynt TAN8 ar y tir, y mae angen gosod cyfartaledd o 12.3 MW bob mis hyd at Ragfyr 2010; erbyn Tachwedd 2006, yr oedd cynnydd dros 60% ar ei hôl hi o ran yr amserlen.

Prosiect newydd: Y mae npower-renewables wedi agor yn swyddogol Fferm Wynt Ffynnon Oer yng Nghwm Nedd. Fe gafodd y fferm wynt 32 MW hon, sy'n cynhyrchu trydan sy'n gyfwerth â gofynion mwy na 17,000 o gartrefi, ei hagor yn swyddogol.

Ynni Gwynt ar y Tir – cynnydd tuag at darged TAN8, a fabwysiadwyd ym mis Gorffennaf, 2005



Cysylltwch â Llywelyn Rhys, Swyddog Cymru BWEA
t 07875 434 049
e llywelyn@bwea.com

croesawch y chwyldro
www.embracewind.com